

CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda, ddydd Mawrth 19 Ionawr 2021 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Arsylwyr: Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Davies, Hugh Irving, Alan James, Barry Mellor, Melvyn Mile, Paul Penlington, Peter Scott, Glenn Swingler, Graham Timms ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS) ac Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW) a Chyllid ac Eiddo (SG); Rheolwr Cludiant Teithwyr (PD); Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol (GD); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ a RTJ)

PWYNT SYLW – Y DIWEDDARAF AM COVID-19

Croesawodd yr Arweinydd bawb i'r cyfarfod ac roedd yn gobeithio y byddai 2021 yn flwyddyn fwy cadarnhaol wrth i'r rhaglen frechu gael ei gweithredu ac y byddai rhywfaint o normalrwydd yn dychwelyd.

Rhoddodd y Prif Weithredwr drosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran Covid-19 yn Sir Ddinbych a Chymru yn ehangach ar gais yr Arweinydd. Roedd y ffigurau diweddaraf yn dangos bod lle am obaith gofalus ein bod wedi cyrraedd uchafbwynt yr heintiau o ran y nifer o heintiau, ond roedd yna nifer sylweddol o breswylwyr oedd dal i fod yn eithriadol o wael gyda Covid-19 yn yr ysbyty. Y gyfradd achosion yn Sir Ddinbych oedd 369.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth, o gymharu â 406 yr wythnos flaenorol, roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig o 306.1, ond roedd cyfraddau heintiau yn disgyn ar draws y mwyafrif o Gymru. Roedd y rhaglen frechu yn parhau yn ddi-oed gyda 27,000 o bobl wedi'u brechu yng ngogledd Cymru, ac roedd y mwyafrif helaeth ohonynt yn y grwpiau risg uchel, gyda 35,000 o frechiadau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer yr wythnos bresennol, gan arwain at lefel uwch o amddiffyniad mewn cartrefi gofal. Serch hynny, mae Covid-19 dal i fod yn ein cymunedau a gofynnwyd i bawb ailadrodd y negeseuon pwysig o ran cadw pellter cymdeithasol, gwisgo masg, mesurau hylendid a chyfyngu ar gysylltiadau.

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGANIADAU CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen – Sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru, gan eu bod ill dau'n Gyfarwyddwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020.

PENDERFYNWYD *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020 fel cofnod cywir.*

5 CYNLLUN BRYS AR GYFER BYSIAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gytuno i'r Cynllun Brys ar gyfer Bysiau a sefydlu perthynas gyda Chyngor Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol rhanbarthol.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cyd-destun a chefnidir ehangach i'r Cynllun Brys ar gyfer Bysiau yn cynnwys cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau bws yn y dyfodol, ynghyd â manylion cymorth ariannol (amodol) sydd eisoes yn cael ei ddarparu i'r sector bysiau, a weinyddwyd yn ddiweddar gan Gyngor Sir y Fflint fel awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer gogledd Cymru, ond yn cael ei ddisbarthu ar ôl cytundeb rhanbarthol. Y cam nesaf o fewn y broses honno ydi Cynllun Brys ar gyfer Bysiau 2 gyda Llywodraeth Cymru yn cynnig cytundeb gyda gweithredwyr ac awdurdodau lleol i amddiffyn gwasanaethau bysiau am gyfnod cychwynol hyd at 31 Gorffennaf 2022, oni bai bod amodau'r farchnad yn gwella ddigon gan olygu nad oedd angen cefnogaeth bellach. Manteision y cytundeb fyddai diogelu gwasanaethau tuag at lefelau cyn Covid a darparu sail gyfreithiol gadarn ar gyfer y cyllid ychwanegol, a chynnig rhywfaint o ddylanwad i awdurdodau lleol o'r hyn arferai fod yn wasanaethau masnachol. Roedd hefyd yn darparu capasiti ychwanegol ar gyfer cludiant i'r ysgol. Roedd y peryglon yn cynnwys gweithredwyr bysiau yn gwrthod cytuno, ond roedd y mwyafrif yn agos at wneud, felly os na fyddai Sir Ddinbych yn cytuno, roedd yr awdurdod yn llai tebygol o fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar lefelau gwasanaeth bysiau, a byddai'n anghydwedd ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- gan ymateb i gwestiynau gan y Cyngorydd Mark Young, cadarnhaodd y Rheolwr Cludiant Teithwyr bod gwaith yn mynd rhagddo gyda Thrafnidiaeth Cymru i sicrhau atebolrwydd democrataidd wrth symud ymlaen a byddai'r Aelod Arweiniol yn gweithio i sicrhau bod anghenion Sir Ddinbych yn cael eu bodloni a'u craffu.

Cytunwyd y byddai aelodau yn cael gwybod am drefniadau llywodraethu yn y dyfodol ar ôl iddynt gael eu sefydlu. O ran darpariaeth gwasanaethau bysiau a sicrhau bod teithwyr yn teimlo'n ddiogel tra'n teithio, darparwyd rhywfaint o ystadegau ar lefelau teithwyr oedd yn dangos bod teithwyr bellach yn fwy hyderus yn defnyddio gwasanaethau bws, gyda lefelau teithwyr tua 10-12% yn ystod y cyfnod clo cyntaf, o'i gymharu â 23% yn y cyfnod clo presennol. Cyfeiriwyd hefyd at y drefn glanhau llym er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd tra'n teithio a chyflwyno'r drefn o archebu seddi ymlaen llaw ar rai gwasanaethu, gan roi lefel ychwanegol o hyder. Serch hynny, roedd cydnabyddiaeth y byddai'n cymryd amser i ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd a lefelau teithwyr cyn Covid.
- tynnwyd sylw at bwysigrwydd gwasanaethau bysiau mewn ardaloedd gwledig oedd yn anodd i'w cynnal a chadarnhaodd y Cyngorydd Brian Jones bod trafodaethau lefel uchel yn cael eu cynnal ar hyn o bryd oedd yn ymwneud yn benodol ag anghenion gwledig ac roedd cefnogaeth ar gael o ran hynny gan aelodau arweiniol ar lefel ranbarthol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyngorydd Jones am y sicrwydd yna ac roedd yn falch gallu nodi bod yr effaith ar ardaloedd gwledig yn uchel ar yr agenda ac y gallai ymagwedd ranbarthol ddarparu cyfle ar gyfer datrysiad mwy arloesol i fodloni anghenion gwledig. Roedd yn cefnogi'r ymagwedd ranbarthol gan ei fod yn darparu gwasanaethau mwy cynaliadwy ac yn sicrhau dialog well gyda gweithredwyr ar lefel is-ranbarthol.
- eglurwyd mai amharodrwydd rhai gweithredwyr i ymuno â'r cytundeb oedd maint penodol yr elw a osodwyd ar 2%, ac roedd gweithredwyr yn teimlo oedd yn atal buddsoddiad yn y dyfodol a phryderon y gallai awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru ddylanwadu ar y gwasanaethau a weithredir.

Roedd trafodaethau yn parhau yr wythnos honno gyda gweithredwyr a Thrafnidiaeth Cymru, ond o ystyried pwysigrwydd y cynllun, disgwyliwyd y byddai materion yn cael eu cwblhau ac y byddai pawb mewn sefyllfa i arwyddo'r cytundeb
- cydnabuwyd amharodrwydd posibl pobl i ddychwelyd i ddefnyddio cludiant cyhoeddus ar ôl Covid a fyddai'n debygol o gael ei ddylanwadu gan ba mor hir y byddai'r pandemig yn parhau a phatrymau oedd yn newid megis siopa ar-lein a llai o gymudo allai ddod yn rhywbeth sefydlog.

Serch hynny, roedd y cynllun yn hyblyg ac yn cydnabod y gallai niferoedd teithwyr gynyddu'n sylweddol neu fod yn destun twf sefydlog. Ers mis Gorffennaf, bu twf o tua 60% o gapasiti cyn Covid mewn rhai ardaloedd a byddai'n cymryd amser i gyrraedd 100%, ond os na chyrhaeddir lefelau cyn Covid, yn anrffod byddai angen trafod cwestiynau am y cydbwysedd rhwng cefnogaeth gyhoeddus a refeniw masnachol.
- cafwyd trafodaeth am effaith buddsoddiad mewn bysiau yn y dyfodol o ran technolegau amgylcheddol megis cerbydau hydrogen neu drydan, yn enwedig o ystyried y terfyn 2% ar elw yn y cytundeb a nod Llywodraeth Cymru na fydd gan fysiau unrhyw allyriadau o'r bibell egsôst erbyn 2028. Hyd yn oed petai niferoedd teithwyr yn dychwelyd i'r lefelau normal, roedd lle i gredu y byddai'n

anodd amnewid y fflyd bresennol yn unol â'r nod hwnnw a bod yna drafodaeth barhaus ynglŷn â hynny - roedd yn debygol y byddai angen rhagor o gyllid.

- Mewn cysylltiad â deddfwriaeth berthnasol ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, cyfeiriodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd at '*State Aid Revocations Amendments EU Exit Regulations 2020*', oedd fod i ddod i rym ddechrau'r flwyddyn, a chadarnhaodd y gellir darparu cyngor cyfreithiol wedi hynny y tu allan i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- (a) *cytuno ag egwyddorion cytundeb Cynllun Brys ar gyfer Bysiau 2 (fel y manylir yn Atodiad 2 yr adroddiad) i sicrhau cymorth ariannol (amodol) i'r sector bysiau ac i sefydlu perthynas â Chyngor Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol rhanbarthol a'r llofnodwr, sy'n sicrhau bod yr arian brys parhaus yn bodloni blaenoriaethau'r awdurdod ac yn cael ei ddarparu ar ei ran, a*
- (b) *maes o law, i alw am adroddiad pellach ar gynigion i ddiwygio bysiau mewn perthynas â rheoli gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn y dyfodol.*

6 SEFYDLU PARTNERIAETH CHWARAEON GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yr adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cabinet mewn egwyddor i sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru.

Darparwyd rhywfaint o gefndir o ran rôl Chwaraeon Cymru oedd wedi darparu arian i awdurdodau lleol yn hanesyddol, a phartneriaid eraill i ymgymryd â rhaglenni ac ymyraethau chwaraeon. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y cynnig arfaethedig i sefydlu partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru rhanbarthol newydd yn cynnwys awdurdodau lleol eraill gogledd Cymru a phartneriaid allweddol, gan weithio gyda gweledigaeth a rennir a fydd o fudd i'r rhanbarth. Petai'n cael ei gymeradwyo, byddai'r cyllid cronus gan Chwaraeon Cymru (tua £2.7 miliwn y flwyddyn) yn cael ei gyfeirio trwy Chwaraeon Gogledd Cymru gyda chyfanswm dangosol y cyllid am 5 mlynedd rhwng 2021/22 a 2025/26 yn £13,529,494. Cyfeiriodd y Cyngorydd Feeley at gyfranogiad Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn y bartneriaeth, ac achubodd ar y cyfle i roi teyrnged i'r staff am eu hymateb i'r heriau a wynebwyd ac am gyfrannu mewn meysydd gwasanaeth eraill er mwyn ymateb i bandemig y Coronafeirws.

Fe arweiniodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd yr aelodau trwy gyfreithlondeb yr adroddiad, yn cynnwys egwyddor Chwaraeon Gogledd Cymru a'r telerau er mwyn gweithredu, gan dynnu sylw penodol at y model i gael ei fabwysiadu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn awdurdod cynnal ynghyd â sail y cyllid a threfniadau llywodraethu. Fe argymhellwyd bod Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn cynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd Llywodraethu o ystyried eu harbenigedd a'r swyddogaethau y mae'n eu gwneud ar ran y Cyngor. Byddai Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn adrodd yn rheolaidd trwy gyfarfodydd rheoli contract a'r Bwrdd Llywodraethu Strategol. Roedd yr amserlenni i gymeradwyo'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod erbyn 22 Ionawr 2021 wedi golygu diwygiad arfaethedig i argymhelliad yr adroddiad i roi awdurdod

dirprwyedig o ran hynny. Roedd adroddiad templed wedi cael ei lunio er mwyn i'r awdurdodau geisio cymeradwyaeth ar gyfer y cynnig drwy eu prosesau ac roedd y cyfeiriad at Wrecsam ym mharagraff 4.1 wedi cael ei gynnwys mewn camgymeriad, a dylid ei anwybyddu.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at bwysigrwydd sicrhau atebolrwydd clir fel y nodwyd gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd, a nodwyd os na fyddai Sir Ddinbych yn cymryd rhan, ni fyddai modd iddynt arfer unrhyw ddylanwad, ond roedd yna berygl y gallai blaenoriaethau lleol gael eu gwanhau o ganlyniad i ymagwedd ranbarthol. Pwysleisiodd y pwysigrwydd bod cynrychiolydd o'r Cyngor ar y Bwrdd Lywodraethu er mwyn tynnu sylw at anghenion a dyheadau lleol wrth symud ymlaen. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd bod y gweithgareddau a ariennir trwy Chwaraeon Gogledd Cymru yn cael eu cyflwyno gan Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ar ran y Cyngor ac roedd strwythurau llywodraethu yn eu lle yn sicrhau deialog barhaus rhwng Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig a'r Cyngor mewn cysylltiad â hynny. O ran yr ymagwedd ranbarthol, peilot ydi Gogledd Cymru, a bwriad Chwaraeon Cymru ydi sefydlu pump partneriaeth ranbarthol ar draws Cymru. Cyfnod cychwynol y cytundeb ydi pum mlynedd a byddai'n dod i ben yn awtomatig wedi hynny oni bai bod pob partner yn cytuno i'w ymestyn, neu bod pob partner yn cytuno i'w ddirwyn i ben cyn diwedd y pum mlynedd. Gan ymateb i ragor o gwestiynau ynglŷn â chyllid, cafodd yr aelodau wybod y byddai Chwaraeon Cymru yn darparu cyllid i Chwaraeon Gogledd Cymru i'w ddsbarthu ar draws y rhanbarth; nid oedd y Cyngor yn cyfrannu unrhyw gostau cyllido.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- (a) *cefnogi mewn egwyddor sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru ac yn dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth a Swyddog Adran 151 i gymeradwyo telerau'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod terfynol, a*
- (b) *phenodi Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Llywodraethu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru gan weithredu fel asiant i'r Cyngor.*

7 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2021/22

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynnydd rhent blynyddol Tai Sir Ddinbych, Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai a Chyllidebau Refeniw ar gyfer 2021/22 a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.

Fe arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau drwy'r adroddiad gan fanylu ar ffigurau'r gyllideb a thybiaethau o ran lefel incwm a gyfrifwyd er mwyn gallu cyflwyno gwasanaethau refeniw, y rhaglen buddsoddi cyfalaf i gynnal safonau ansawdd tai ac i ddatblygu'r rhaglen adeiladu newydd. O ran y cynnydd rhent blynyddol cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bolisi rhent pum mlynedd ym mis Rhagfyr 2019 ar gyfer rhent tai cymdeithasol ac mae setliad y rhenti wedi'u cyfrifo

gan ystyried y polisi a'r mecanwaith hwnnw ar gyfer codi rhent. Y cynnydd ar gyfer 2021/22 oedd 1.5% gan arwain at rent wythnosol cyfartalog o £93.89 (cynnydd o £1.38 mewn rhent wythnosol cyfartalog). Nid oedd cynnig i ddefnyddio'r tâl dewisol o hyd at £2 yr wythnos ar gyfer eiddo. Yn rhan o'r broses gosod rhent, rhoddwyd ystyriaeth i fforddiadwyedd tenantiaid, gwerth am arian ac asesiad o effeithiolrwydd cost. Roedd adolygiad blynyddol Cynllun Busnes y Stoc Dai y dangos ei fod yn parhau'n gadarn ac yn ariannol hyfyw ac roedd digon o adnoddau ar gyfer cefnogi'r gwasanaeth tai ac anghenion y stoc am fuddsoddi.

Tynnodd y Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol sylw at yr angen i gydbwyso lefel mewn cynnydd rhent er mwyn gallu talu costau yn y dyfodol yn erbyn fforddiadwyedd tenantiaid. Yn sgil lefel chwyddiant, dyma oedd y cynnydd rhent isaf ers peth amser, ac i denantiaid sy'n derbyn budd-dal tai, byddai'r hawl i fudd-dal yn cynyddu i dalu am y cynnydd mewn rhent. Roedd y taliadau gwasanaeth cyfartalog, er yn amrywio rhwng eiddo, wedi gostwng rhywfaint.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol ymhellach gyda'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill a'r Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol -

- Dywedodd y Cynghorydd Mark Young ei fod yn adroddiad gonest oedd yn nodi'n glir y rhesymau dros gynyddu rhent, ond gofynnodd am ragor o sicrwydd ynglŷn â'r elfen fforddiadwyedd, yn enwedig o ystyried y gostyngiad posibl mewn taliadau Credyd Cynhwysol a'r caledi ariannol roedd tenantiaid yn eu hwynebu.
Cafodd wybod waeth beth yw lefel y Credyd Cynhwysol, os ydi tenantiaid yn gymwys i gael budd-dal byddai unrhyw gynnydd yn y rhent a thâl gwasanaeth yn cael ei gynnwys. Rhoddwyd sicrwydd bod y gwasanaeth wedi bod yn cefnogi tenantiaid yn rhagweithiol ac roedd telerau ad-dalu fforddiadwy'n cael eu cynnig os oeddynt yn mynd i ddyled, heb fygythiad o weithred gyfreithiol. Rhoddwyd teyrnged hefyd i Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am ddarparu cefnogaeth werthfawr a chyngor am gyllidebu i denantiaid. Roedd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Sir Ddinbych yr un cyfrifoldebau o ran safonau datgarboneiddio a buddsoddi mewn stoc dai, ond rhenti'r Cyngor oedd yr isaf, ond yr un safon o wasanaeth a ddarperir. Roedd data'r llynedd yn dangos bod rhenti'r Cyngor ar ochr isaf y raddfa o ran rhent targed Llywodraeth Cymru, ac mae'n debygol y bydd rhagor o denantiaid yn disgyn o dan y rhent targed eleni, gan ddangos gwasanaeth ardderchog am gost isel i denantiaid.
- er ei bod yn gwerthfawrogi'r angen am adolygiad blynyddol a'r achos dros gynyddu rhent, roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn cwestiynu amseru'r cynnydd yng ngoleuni'r caledi ariannol a achoswyd gan y pandemig, ac fyddai hi'n bosibl i oedi'r cynnydd tan y flwyddyn ganlynol.
Cafwyd eglurhad nad ydi'r ddeddfwriaeth yn caniatáu hawlio incwm yn ôl-weithredol a'r flwyddyn nesaf dim ond CPI +1 oedd posibl ei ystyried, a'r tâl dewisol o £2 o bosibl, ond byddai'n gosod cynnydd uwch ar denantiaid mewn un blwyddyn yn hytrach na'i ymestyn dros ddwy flynedd. Byddai hefyd yn arwain at lai o incwm yn y flwyddyn ariannol nesaf a fyddai o bosibl yn effeithio ar hyfywedd Cynllun Busnes y Stoc Dai wrth symud ymlaen. Roedd lles tenantiaid yn ystyriaeth allweddol ac roedd y cynnydd wedi cael ei drafod gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych. Fe nodwyd y byddai'r cynnydd yn cael ei gynnwys gan y budd-dal tai mewn dros dau draean o'r

achosion, a byddai gweddill y tenantiaid yn cael eu cefnogi gymaint â phosibl. Yn y gorffennol, roedd y cynnydd mewn rhent werth tua £800,000 y flwyddyn, ond byddai'r cynnig presennol tua £240,000 a byddai rhent di-symud heb unrhyw gynnydd yn arwain at golled yn agos at £1miliwn mewn pedair blynedd. Byddai hyn yn effeithio ar fuddsoddi yn y stoc dai a darpariaeth gwasanaeth i denantiaid. Er yn gwerthfawrogi'r cynnydd i denantiaid, roedd y rhent dal yn llawer is na lefel rhent targed Llywodraeth Cymru.

- o ran polisi rhent pum mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer rhenti tai cymdeithasol, fe ailadroddwyd bod y polisi yn cytuno ar gynnydd rhent blyneddol o ddim mwy na CPI +1% gyda ffi £2 yr wythnos yn ychwanegol ar gartrefi unigol ar yr amod nad oedd y rhent yn cynyddu mwy na CPI +1%.
Roedd awdurdodau lleol eraill yng ngogledd Cymru hefyd yn codi rhenti gyda rhai yn bwriadu defnyddio'r cynnydd £2 wythnosol yn hytrach na CPI+1%. Roedd rhenti targed Llywodraeth Cymru wedi codi 11.5% dros y pedair blynedd diwethaf, ond dim ond 9% oedd y cynnydd yn rhenti'r Cyngor dros y cyfnod hwnnw. Wrth ystyried y cynnydd arfaethedig mewn rhent, mae lefelau rhent Sir Ddinbych yn parhau i fod yn llawer is na rhent targed Llywodraeth Cymru. Cyfeiriwyd hefyd at y buddsoddiad yn y stoc dai yn cynnwys gwneud eiddo yn fwy effeithlon o ran ynni a fyddai'n arwain at filiau tanwydd is i denantiaid.
- Mynegodd y Cynghorydd Glenn Swingler bryderon am y terminoleg a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o Effaith ar Les gan gyfeirio at y pryder y byddai gan Tai Sir Ddinbych nifer anghymesur o aelwydydd tlotach yn sgil ei rent is. Roedd y Swyddog Arweiniol yn derbyn y pwynt a chytunodd i ail eirio'r ddogfen. Fe eglurodd bod yr Asesiad o'r Effaith ar Les wedi cael ei gynnal gyda thenantiaid ac roedd yna bryder blaenorol ynglŷn â'r dull roedd cymdeithasau eraill wedi'u cymryd o ran asesiad fforddiadwyedd a chymhwyster ar gyfer tenantiaethau wedi dyddio.

Rhoddodd y Cabinet deyrnged i waith gwasanaethau tai, mewn partneriaeth gyda Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wrth gefnogi tenantiaid i reoli eu cyllid yn effeithiol ac i wneud y mwyaf o'u hincwm, a'r ymagwedd sensitif i ddelio â thenantiaid sydd mewn trafferthion ariannol. Ar ôl ystyried ffigurau'r gyllideb a'r cynnydd arfaethedig mewn rhent, ac ar ôl ystyried fforddiadwyedd i denantiaid a'r lefel o fuddsoddiad yn y stoc dai yn y dyfodol, roedd yna gefnogaeth gyffredinol i'r argymhellion.

PENDERFYNWYD -

- mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2021/22 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad);*
- cynyddu rhent anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol i rent wythnosol cyfartalog o £93.89 i'w weithredu o ddydd Llun 5 Ebrill 2021;*
- nodîr adroddiad ychwanegol (Atodiad 3 i'r adroddiad) am Effeithiolrwydd Cost, Fforddiadwyedd a Gwerth am Arian, a*
- Y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Yn y fan hyn (11.25am) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

8 CYLLIDEB 2021/22 – CYNIGION TERFYNOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn amlinellu goblygiadau Setliad drafft Llywodraeth Leol 2021/22 a'r cynigion ar gyfer cyllideb derfynol 2021/22, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

Darparodd y Cynghorydd Thompson-Hill drosolwg o broses y gyllideb a sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb ac ymhelaethodd ar y cynigion i'w hystyried a'r argymhelliad i'r Cyngor llawn er mwyn gosod y gyllideb ar gyfer 2020/21. Roedd y setliad drafft wedi arwain at setliad cadarnhaol o +3.6% (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.8%) a disgwylir y setliad terfynol ar 2 Mawrth 2021. Roedd pwysau o £9.903 miliwn wedi'u manylu ac roedd effaith defnyddio £685,000 o arian yn 2021/22 yn golygu cyfanswm o ddiffyg gwerth £10.588 miliwn. Roedd y setliad o +3.6% yn cynhyrchu £5.42miliwn gan adael bwlch cyllid o £5.167m gyda chynigion i gau'r bwlch wedi'u nodi yn yr adroddiad a'u hegluro ymhellach yn y cyfarfod. Roedd cynnydd o 3.8% yn Nhreth y Cyngor wedi'i gynnig i gynhyrchu £2.132m o refeniw ychwanegol. Gan fod y setliad terfynol yn hwyr, argymhellwyd bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo er mwyn galluogi addasiadau arian parod yng nghynigion y gyllideb hyd at £500,000.

Fe ychwanegodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo bod y gyllideb yn parhau fel arfer gyda thybjaeth y byddai rhywfaint o gefnogaeth yn dod gan Lywodraeth Cymru petai pwysau oedd yn gysylltiedig â Covid yn parhau. Cadarnhaodd hefyd y byddai yna ymgysylltu cynnar gydag aelodau am broses y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Canolbwyntiwyd ar y prif faterion trafod a ganlyn -

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Mark Young at y diffyg mewn cyllid a'r blynyddoedd o doriadau i gyllidebau awdurdod lleol a gofynnodd am gynaliadwyedd cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol a gofynnodd am ddiweddariad am geisiadau blaenorol ar gyfer cyllideb tair blynedd i gynorthwyo gyda chynllunio ariannol yn y dyfodol

Ymatebodd yr Arweinydd eu bod wedi gwerthfawrogi'r setliadau cadarnhaol dros y ddwy flynedd diwethaf, yn enwedig o ystyried y sefyllfa ariannol y mae Llywodraeth Cymru a'r DU yn ei hwynebu. Roedd yna ddeialog rheolaidd a chadarnhaol gyda Gweinidog Cymru trwy gydol y pandemig ac roeddynt yn deall yr heriau a'r pwysau oedd llywodraeth leol yn ei wynebu ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol yn y modd maent wedi ymateb i sefyllfa Covid-19. Serch hynny, fe allai etholiadau Senedd Cymru olygu newid mewn Gweinidog allai gael effaith sylweddol. Roedd y Prif Weithredwr yn croesawu'r setliad ariannol oedd yn galluogi'r awdurdod i dalu am y mwyafrif o bwysau gwasanaeth ar gyfer 2021/22, ond nid oedd modd gwarantu y byddai pwysau newydd yn sgil colli incwm oherwydd Covid-19 yn cael ei fodloni. Os na fyddai setliadau yn y dyfodol yn cael eu cynnal ar lefel o'r fath i fodloni pwysau cynyddol, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, byddai angen gwneud penderfyniadau anodd. Mewn cysylltiad â setliad tair blynedd, fe eglurodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo bod y cynnig gwreiddiol ar gyfer adolygiad cynhwysfawr o wariant wedi cael ei oedi yn sgil Covid-19 ac roedd y Canghellor

wedi cyhoeddi setliad un mlynedd fis Tachwedd diwethaf. Roedd Llywodraeth Cymru angen syniad o'u ffigurau am dair blynedd gan Drysorlys y DU er mwyn gallu bod mewn sefyllfa i ddarparu setliad tair blynedd ar gyfer llywodraeth leol wrth symud ymlaen.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Glenn Swingler at arbedion o un flwyddyn i'r llall gan ysgolion ac roedd yn teimlo nad oedd hi'n briodol ceisio am ragor o arbedion yng ngoleuni'r anawsterau a wynebwyd yn ymateb i Covid-19 a gofynnodd am y swm o fuddsoddiad mewn ysgolion.

Mewn cysylltiad â'r pecyn o arbedion cyffredinol, gofynnodd a oedd modd edrych eto i ystyried yr elfen fforddiadwyedd i breswylwyr. Fe eglurodd yr Aelod Arweiniol Cyllid bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers peth amser gyda Fforwm Cyllideb Ysgolion, ac fel y blynyddoedd diwethaf, i gyflawni 1% o arbedion (roedd disgwyl i bob gwasanaeth arall ddod o hyd i 4%). Roedd yr arbediad o 1% gyfystyr â £733,000 gyda £3.27 miliwn yn ychwanegol wedi'i gynnig i gael ei ddyrannu er mwyn i gyllideb ddirprwyedig ysgolion gynyddu tua £2.5 miliwn fel ffigur net cyffredinol. Roedd y cynnydd i ysgolion ar gyfer gwariant referniw ac roedd buddsoddi mewn ysgolion trwy gyllideb Moderneiddio Addysg ar wahân. Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol Addysg bod Fforwm Cyllideb Ysgolion yn cefnogi'r cynnig, ac roedd yna ennill clir yn y gyllideb. Serch hynny, fe dynnodd sylw at y pwysau ar ysgolion o ran ariannu dysgu cyfunol a rheoliadau Covid-19 ac ati ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i geisio unrhyw gyllid allai fod ar gael gan Lywodraeth Cymru i'w gosod yn erbyn y costau a ysgwyddir gan ysgolion. Gan ymateb i'r pwynt a wnaed ynglŷn â phecyn cyffredinol cynigion y gyllideb fe eglurodd Aelod Arweiniol Cyllid yr opsiwn i naill ai lleihau'r swm yn y cyllid i dalu am bwysau cyllideb (er bod y mwyafrif yn anochel) neu newid swm Treth y Cyngor. Nid oedd yn credu y dylid codi mwy na'r hyn oedd ei angen ar breswylwyr i gyflwyno gwasanaethau, roedd hyn hyd yn oed yn fwy gwir yn y flwyddyn ariannol hon a'r caledi ychwanegol a wynebir yn sgil Covid-19. Nid oedd codi Treth y Cyngor 3.8% yn benderfyniad hawdd o ystyried yr effaith y byddai'n ei gael ar breswylwyr. Petai lefel is yn cael ei argymhell byddai'n golygu na fyddai rhai pwysau ychwanegol yn cael eu bodloni neu doriadau ychwanegol i wasanaethau. O ganlyniad, roedd yn credu bod cynigion y gyllideb yn cynrychioli'r ffordd orau o fynd i'r afael â phwysau gyda'r effaith leiaf negyddol ar breswylwyr.

- gan ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Paul Penlington ynglŷn â ffigurau'r gyllideb fe eglurodd yr Aelod Arweiniol Cyllid bod y ffigur diffyg yn yr adroddiad cyn mynd i'r afael â Threth y Cyngor, yn fwllch cyllid o £5.167 miliwn. Roedd yr eitemau oedd wedi'u rhestru ym mharagraff 4.4. yr adroddiad yn cael eu cynnig i helpu i gau'r bwlch cyllido gan adael £2.132m oedd gyfystyr â chynnydd o 3.8% yn Nhreth y Cyngor oedd yn cael ei gynnig. Petai Treth y Cyngor yn cael ei osod ar gyfradd is na 3.8% byddai naill ai'n golygu toriadau ychwanegol i wasanaethau neu beidio â bodloni'r holl bwysau a nodwyd ym mharagraff 4.3 yr adroddiad.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

(a) nodi effaith Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2021/22;

- (b) *cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ac y manylir arnynt yn Adran 4 yr adroddiad, ac yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn llunio'r gyllideb yn derfynol ar gyfer 2021/22;*
- (c) *argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog arfaethedig o 3.8% yn Nhreth y Cyngor;*
- (d) *argymell i'r Cyngor fod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500mil os oes yna symud rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol, a*
- (e) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les a gyflwynwyd fel rhan o'r adroddiad hwn.*

9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb fel yr amlinellir isod -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21 oedd £208.302 miliwn (£198.538 miliwn yn 2019/20).
- rhagwelir y byddai gorwariant o £2.242miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol.
- tynnwyd sylw at y risgiau a thybiaethau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol ynghyd ag effaith ariannol Coronafeirws a chyllidebau Model darparu Amgen Hamdden
- manylion o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol o £4.448 miliwn y cytunwyd arno, gan gynnwys cynnwys arbedion corfforaethol sy'n ymwneud ag adolygiad actiwaraid teirblwydd o Gronfa Bensïynau Clwyd (£2 miliwn); 1% arbedion ysgolion (£0.692 miliwn); arbedion gwasanaeth (£1.756 miliwn).
- rhoddwyd diweddiariad cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Fe eglurodd y Cynghorydd Thompson-Hill nad oedd yna newidiadau sylweddol ers adroddiad cyllid y mis blaenorol. Roedd y gorwariant o £2.242 miliwn a ragwelir wedi tybio na fyddai cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a byddai'r ffigurau yn cael eu diweddarau ar ôl i ni dderbyn y cyllid hwnnw yn unol â'r arfer blaenorol. O ran y Prosiectau Cyfalaf roedd y mwyafrif yn datblygu yn unol â'r disgwyliadau, ac o ran Ailddatblygu Marchnad y Frenhines y Rhyl, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru £1.5 miliwn ychwanegol (yn ogystal â'r £5miliwn o ddyraniad dros dro), gan olygu bod cam 1 y prosiect wedi cael ei ariannu'n llawn. Roedd y cais cynllunio a gyflwynwyd ar gyfer y prosiect cyfan. Yn olaf, cyfeiriwyd at y trefniadau grant amrywiol sydd wedi cael eu gweinyddu gan y Cyngor ar ran LIC sy'n ymwneud â Covid-19 dros y deng mis diwethaf, ac mae'r arian sydd wedi'i dalu gan awdurdodau lleol yn fwy na £1 biliwn ac mae Sir Ddinbych wedi talu tua £52 miliwn i fusnesau. Roedd hyn yn brawf o'r Tîm Refeniw a Budd-daliadau yn gweithio'n tu hwnt o galed a rhoddwyd teyrnged i staff mewn cysylltiad â hynny.

Fe dynnodd y Cynghorydd Mark Young sylw at y gefnogaeth ardderchog ac ymateb cyflym roedd y Cyngor wedi'i ddarparu i fusnesau, ond gofynnodd a fyddai rhagor o gymorth ariannol yn dod gan Lywodraeth Cymru o ystyried bod busnesau dal ynghau a'r caledi a achoswyd yn sgil hynny. Fe eglurwyd bod y cyllid a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru dros y cyfnod clo tan 29 Ionawr, ac roeddynt yn tybio y byddai rownd arall o gyllid ar gael petai'r cyfnod clo yn parhau ar ôl y dyddiad hwnnw, ond nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dim am hynny eto. Byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r aelodau cyn gynted ag y byddai rhagor o wybodaeth ar gael.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cafodd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet ei gyflwyno i'w ystyried a nodwyd y byddai'r eitem 'Rheolau'r Weithdrefn Gontractau' yn cael ei symud o fis Chwefror i gyfarfod yn y dyfodol yn dibynnu ar ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio. Gan ymateb i gais gan y Cynghorydd Meirick Davies cytunodd yr Arweinydd i drefnu bod nifer o adroddiadau blaenorol am 'Newidiadau i Bolisi Enwi a Rhifo Strydoedd' oedd wedi'i drefnu at y cyfarfod nesaf yn cael eu hanfon ato o'n uniongyrchol.

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.